**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ●Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398 clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

COPI DRAFFT

# COFNODION CYFARFOD ARFEROL

# 13eg MAI 2021

**<u>COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG</u>**
**<u>A GYNHALIWYD NOS IAU 13eg o FAI 2021</u>**
**<u>AR LEIN AM 7.00 Y.H.</u>**

<u>CADEIRYDD</u>: Cynghorydd: Erwyn Jones

<u>YN BRESENNOL:</u> Cynghorwyr: Rory Francis, Ronwen Roberts, Mark Thomas, Mel Goch ap Meirion, Glyn Daniels, Annwen Daniels, Bedwyr Gwilym.

**11012/05/21** **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**
Cynghorydd Gwenlli Evans.

**11013/05/21** **<u>DATGAN DIDDORDEB</u>**
**Eitem rhif 9 – Cais Cynllunio NP5/59/792A – Cynghorydd Mel Goch ap Meirion.**

**11014/05/21** **3. <u>MATERION BRYS</u>**
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
**<u>Dalier Sylw</u> trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Derbyniwyd lythyr gan Clwb Ffermwyr Ifanc yn diolch i'r Cyngor Tref am y cyfraniad ariannol a dderbyniwyd yn ddiweddar.

Derbyniwyd wybodaeth gan Cwmni Bro yn hysbysu fod sesiynau Sgiliau Traddodiadol ar ddatblygiad Eglwys San Mihangel, Llan Ffestiniog ymlaen yr wythnos nesaf a bod rhai lleoedd dal ar gael i bobl y fro. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ledaenu'r neges.

Cododd y Cynghorydd Glyn Daniels fod y cynllun Swyddog Rygbi yn Ysgol y Moelwyn yn dod i ben eleni, gyda'r Cyngor Tref wedi dyrannu cyfraniad ariannol dros y 3 blynedd ddiwethaf. Crybwyllwyd y byddai cais ariannol ychwanegol yn cyrraedd y Cyngor Tref mis nesaf, ac i wneud penderfyniad yn y cyfarfod arferol nesaf.

**11015/05/21** **<u>4. MATERION I'R HEDDLU</u>**

Dim aelod o'r heddlu yn bresennol a dim materion i'w drafod.

**11016/05/21** **5. DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 8FED O EBRILL 2021.**

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Ronwen Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Rory Francis yn eilio.

**11017/05/21** **6. CYFRIFON I'W TALU**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau I'w talu/ Payments due | | 09.04.21-13.05.21 | | |
| Cyfarfod Arferol / Ordinary Meeting 13.05.2021 | | | | |
| **Cyfrifon 2020-21Accounts (wedi'i dalu/ Paid)** | | | | |
| 01.03.21 | BT | Anfoneb misol / Monthly Bill phone / Broadband / Cloud Phone | £60.02 | DD |
| 06.04.21 | British Gas | Trydan Pafiliwn Electric 02/03/21-01/04/21 | £29.68 | DD |
| | | | | |
| **Cyfrifon 2020-21 Accounts (I'w dalu / Due)** | | | | |
| 26.03.21 | Cyngor Gwynedd | Anfoneb am gwaith swyddog - Q4 2020/21 invoice for officer support | £3,060.85 | Rhif siec |
| | | | | |
| **Cyfrifon 2021-22 Accounts (I'w dalu/Due)** | | | | |
| **Dyddiad/Date** | **Cyflenwr / Supplier** | **Disgrifiad / Description** | **Cost** | **Rhif siec** |
| 14.04.21 | BT | Anfoneb misol / Monthly bill ffon/cloudphone / y we | £ 94.74 | DD |
| 20.04.21 | GL Jones | Trwsio'r Swing nyth yn y Parc / Fixing bird nest swing at Y Parc | £ 201.67 | 3214 |
| 17.04.21 | Gary Edwards | Torri Coeden Gardd Encil Tree cutting | £ 150.00 | 3215 |
| 10.05.21 | CommuniCorp | Clerks & Council Direct tanysgrifiad blwyddyn / yearly subscription | £ 12.00 | 3216 |
| 30.04.21 | Canolfan Gymdeithasol | Rhent Ebrill 2021 | £ 430.00 | 3217 |
| 30.04.21 | Cricieth Cleaning | Glanhau llochesi bws a biniau mis Ebrill / Bus shelter and bin emptyin | £ 1,203.53 | 3218 |
| 05.05.21 | Zoe Pritchard (Clerc) | Taliad Mawrth Zoom #INV84353795 | £14.39 | 3219 |
| 04.05.21 | British Gas | Trydan Pafiliwn Electric 02/04/21-01/05/21 | £32.82 | DD |
| 01.05.21 | BT | Anfoneb misol ffon / Y we / Monthly bill phone and internet | £38.34 | DD |
| | | | | |
| | | **CYFANSWM / Total** | **£ 2,177.49** | |
| | | | | |
| ARIAN I MEWN / INCOME | | | | |
| | | | | |
| 31.03.21 | Caffi Kiki | talu anfoneb rhif 1159 / payment of invoice | £ 277.26 | |
| | Caffi Kiki | talu anfoneb rhif 1160 / payment of invoice | £ 152.92 | |
| 12.04.21 | Caffi Kiki | ad-dalu trydan a dwr / re-payment of electric and water | £ 44.83 | |
| 30.04.21 | Praesept | Taliad 1af o Praesept 2021/22 1st praesept payment | £ 115,000.00 | |
| | | | £ 115,475.01 | |

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod.

11018/05/21 7**. <u>CYFRIFON MISOL Y CYNGOR</u>**

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Misol Cyfrifon Cyngor Tref Ffestiniog | |
| | Monthly Account Report for Cyngor Tref Ffestiniog. | |
| | | |
| | **Incwm / Income** | |
| 2 | Cyffredin / General | £ - |
| 12 | Praesept / Precept | £ - |
| 8 | Incwm / Income | £ - |
| 7 | Caeau Chwarae / Playing Fields | £ - |
| 6 | Mwynderau / Amenities | £ - |
| 4 | Llwybrau / Footpaths | £ - |
| | **CYFANSWM / TOTAL** | **£ -** |
| | | |
| | **Gwariant / Expenditure** | |
| 1 | Cyflogau / Salaries | £5,718.76 |
| 2 | Cyffredin / General | £ - |
| 3 | Adran 137 | £ - |
| 03a | Cyfraniadau / Donations | £ - |
| 4 | Llwybrau / Footpaths | £ - |
| 5 | Nadolig / Christmas | £ - |
| 6 | Mwynderau / Amenities | £ - |
| 7 | Caeau Chwarae / Playing Fields | £ - |
| 9 | Aelodau / Members | £ - |
| 10 | Yswiriant / Archwilio / Insurance / Audit | £ - |
| 11 | Llochesi Bws / Bus Shelters | £ - |
| | **CYFANSWM / TOTAL** | **£5,718.76** |
| | | |
| | Balans 01/04/21 | 151,409.20 |
| | Arian i mewn | 0 |
| | Cyfanswm Incwm / Income Total | 151,409.20 |
| | | |
| | Taliadau | 5718.76 |
| | Balans / Balance | 145,690.44 |

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cyfrifon.

**Bu rhaid i'r Cadeirydd adael y cyfarfod am ychydig funudau, ac mi gymerodd y Dirprwy Gadeirydd, Rory Francis drosodd yn y Gadair.**

**11019/05/21** **PWYLLGOR MWYNDERAU**
Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 15FED Ebrill 2021

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS Iau 15fed o Ebrill 2021
Ar Lein AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones
Gwenlli Evans
Bedwyr Gwilym
Annwen Daniels
Rory Francis
Ronwen Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:
Glyn Daniels
Mark Thomas

**1.Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor**
Bu i'r Cynghorwyr ethol y Cynghorydd Erwyn Jones yn gadeirydd y pwyllgor yn dilyn absenoldeb y Cadeirydd.
Argymell: Cynghorydd Erwyn Jones yn derbyn.

**2. Derbyn Ymddiheuriadau**
Ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Mark Thomas a Glyn Daniels.

**Argymell:** Derbyn yr ymddiheuriadau.

**3. Datganiad Buddiant Personol**
DIM

**4. Adroddiadau Misol y Caeau Chwarae.**
Bu i'r Pwyllgor drafod yr adroddiadau.

**Cae Penbryn**: Cadarnhaodd y Clerc bod angen gosod y ddwy fainc newydd sydd eisoes wedi'i berchnogi. Cytuniwyd y byddai'r un hen fainc sydd yn gyfa i'w gynnig yn y lle cyntaf i Seren Cyf ar gyfer ailgylchu.

COPI DRAFFT

**Cae Bryn Coed**: Cadarnheir fod y cylch camu newydd wedi ei archebu ond yn aros i'r contractwr cadarnhau dyddiad gosod. Yr un mater gyda'r swing nyth adar, gyda ddau contractwr angen gallu cwrdd ar y safle ar yr un diwrnod i gwblhau'r gwaith. Cytuniwyd y byddai'n werthfawr rhoi neges ar FB fod y swing am ei drwsio, rhag ofn fod pryder lleol fod y swing wedi diflannu yn gyfan gwbl.

**Cae Manod**: Gofynnwyd os oes modd gosod arwydd Covid newydd ar giat y fynedfa, yn sgil yr hen un wedi'i dorri.

**Cae Gild:** Gwaith yn parhau i canfod contractwr all drwsio'r gapiau yn y llawr yno.

**Cae Baltic:** GL Jones wedi trwsio'r tsaeniau a gosodiadau'r swing yno. Y pyltiau wedi cipio ac fydd angen i GL Jones dychwelyd i'w trwsio. Pryderon am tyfiant a blerwch y tir/cae a thyfiant o chwyn wrth y cae chwarae wedi codi gan drigolion lleol. Gofynnwyd os oes modd trefnu i rhywun glirio'r cae yn gyntaf, ac yna gofyn wrth y contractwr torri gwair i dorri'r cae i gyd at y pen. Cadarnhawyd i'r clerc leoliad y wal sydd wedi dymchwel ar tir ger Cae Baltic, a gellir symud ymlaen i'w drwsio.

**Cae Sgwar Oakeley**: Giat mochyn y cae yn parhau i fod angen ei asesu a gwneud yn saff. Angen gosod arwyddion dim cwn o amgylch y cae, er mwyn gwarchod y plant o niweidion baw cwn sydd o amgylch y tir.

**Cae Tanygrisiau**: Adroddiad Rospa wedi adnabod pwynt baglu ar y giat mochyn hefyd yma. Contractwr wedi ei apwyntio i osod concrid o dan y byrddau picnic eisoes, bydd angen gofyn iddynt drwsio'r pwynt baglu hefyd yno. Cynghorwyr yn codi pryder fod y gwaith yma dal heb ei gwblhau. Clerc i roi amserlen gwaith a chysylltu a chontractwr arall os nad yw'r un presennol yn gallu ei gwblhau o fewn amser.

**Parc Sglefrio:** Graffiti anweddus i'w weld o'r ffordd fawr ar un o'r rampiau. Cynghorydd Ronwen Roberts wedi cytuno i fynd yno ar y penwythnos i beintio drosto.

Gwaith i osod giat newydd ar y fynedfa ochr heb ei gytundebu allan eot i gontractwr.

**Y Parc:** Angen gwirio efo tenant caffi'r Parc pryd mae'r Parc yn cael ei gau gyda'r nos ar hyn o bryd. Nifer o gwynion a tystiolaeth o weithgareddau ddi-gymdeithasol yn mynd ymlaen yn y Parc gyda'r nos, gan gynnwys gwydr wedi ei dorri mewn sawl ardal o'r Parc. Awgrymu cau am 8yh am y tro i weld os wnaiff wahaniaeth. Adnabuwyd her arall bod bobl yn gallu cael mynediad i'r Parc gyda'r nos, hud yn oed os yw'r giatiau wedi eu cloi, drwy'r parc bach. Gofynnwyd i'r clerc holi am brisiau am ffens uchel i'r ffin rhwng y parc bach a gweddill y parc. Hwn i'w drafod a gwneud penderfyniad yn y Cyfarfod Mwynderau nesaf. Angen codi pryder am y Parc gyda'r Heddlu.

**Argymell:** Derbyn yr adroddiadau. Cytuniwyd bod angen ychwanegu tiroedd eraill mae'r Cyngor Tref yn berchen arno gael ymweliadau misol i sicrhau fod y safleoedd yn saff i'r cyhoedd. Angen holi os byddai'n bosib ychwanegu'r tiroedd eraill, sef Gardd Encil, tir o amgylch cofgolofn Llan Ffestiniog, tir ger Cae Baltic a Tir Tan y Manod. Byddai angen derbyn dyfynbris am y gwaith, a gwneud penderfyniad yn y Pwyllgor Mwynderau nesaf.

COPI DRAFFT

Cynghorwyr eisiau mynegi eu diolch i Helen Jones am wneud yr archwiliadau Caeau Chwarae mor drwadl.

**5. Cytuno i dalu anfoneb – Archwiliadau llwybrau cyhoeddus gan John Evans ar gyfer 2020/21.**

Trafodwyd safon gwaith y cytundebwr a chanmoliwyd am ei waith trylwyr bob amser.

**Argymell**: Cytuno i dalu'r anfoneb.

**6. Trafod ail-atgyfodi Partneriaeth y Parc**

Yn dilyn yr pryderon a sylwadau cyffredinol gan y cyhoedd yn ddiweddar amcyflwr Y Parc, teimlwyd ei bod yn amserol trafod ail-atgyfodi Partneriaeth y Parc. Cytuniwyd mai'r cam cyntaf byddai rhoi neges ar Facebook i geisio dennu diddordeb unigolion i fod yn aelodau o'r bartneriaeth. Trafodwyd yr angen i'r Cyngor Tref gytuno ar nod a prif bwrpas y Bartneriaeth.

**Argymell:** I geisio ail gychwyn Partneriaeth y Parc, gan ddenu aelodaeth newydd drwy ymgyrch cyhoeddus ar Facebook. Asesu'r ymateb yn y Pwyllgor Mwynderau nesaf. Gwirio os yw offer Partneriaeth y Parc yn parhau i fod yn y Container yno, ac os yw'r sugnwr sbwriel ar rhestr asedau'r Cyngor Tref.

**7. Tir Tan y Manod – trafod datblygiad creu gweithgor agored**

Cafodd neges ei rannu ar fore'r 15fed o Ebrill fel galwad agored gan y Cyngor Tref i unigolion o'r gymuned ymuno ar weithgor y tir. Ail-drafod yn y Pwyllgor Mwynderau nesaf arol i'r galwad agored gael ychydig o amser. Awgrymwyd fod y Cyngor Tref yn cysylltu'n uniongyrchol gydag asiantaethau penodol hefyd er mwyn rhannu gwybodaeth fod y tir ar gael, megis Gisda, Tan y Maen, Blaenau Youth Shedz, Mens Sheds ayyb. Awgrymwyd cysylltu gydag Ysgol y Manod ac Ysgol y Moelwyn i hysbysu fod y tir yma ar gael iddynt ddefnyddio os oes diddordeb. Unwaith fydd gweithgor bach mewn lle, bysa'n bosib creu cyfansoddiad pwrpasol i'r grwp ac adnabod nod ac amcanion y prosiect. Trafodwyd yr angen i enwi'r tir o'r newydd, a cytuniwyd byddai cysylltu gydag Ysgol y Manod, yn cynnig cystadleuaeth i enwi a gwneud llun er mwyn defnyddio at marchnata'r lleoliad yn y dyfodol. Cytuniwyd bod angen gosod arwyddion dim cwn o amgylch y tir, yn ogystal â phlaciau yn nodi mai Cyngor Tref Ffestiniog sydd berchen y tir, a nodi rhif ffon Swyddfa'r Cyngor yno.

**Argymell**: I dderbyn yr wybodaeth a gweithredu ar y pwyntiau canlynol:

- Cysylltu gydag asiantaethau lleol, Ysgol Manod ac Ysgol y Moelwyn yn hyrwyddo'r cyfle i ddefnyddio'r tir ar gyfer sesiynau a gweithdai.
- Creu cystadleuaeth i enwi'r tir a chreu llun fel logo i'r safle, ar gyfer disgyblion Ysgol Manod.
- Gosod arwyddion dim cwn a Chyngor Tref o amgylch y ddau gae.

**8. Unrhyw fater brys**

Derbyn dau anfoneb hwyr am waith ar y caeau chwarae yn dilyn adroddiad Rospa gan GL Jones, ar gyfer Cae Manod a Chae Baltic.

**Argymell**: Rhoddwyd ganiatad i'r Clerc dalu'r ddau anfoneb gan fod y gwaith eisoes wedi'i ganiatau mewn cyfarfod blaenorol.

Roedd cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd fod y fainc a'r bin ger 30 STryd Fawr yn parhau mewn lle. Cadarnhaodd y Clerc nad oedd cofnod o'r sgwrs hynny yn y cofnodion.
Argymell: Nodwyd mai Cyngor Gwynedd, nid y Cyngor Tref sydd yn berchen ar y fainc a bin hwnnw, ac felly cyfeirio'r cwyn ymlaen i Gyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Sir sydd ei angen.

Cyfarfod i ben am 8.25yh.

**PENDERFYNIAD**: Derbyn a chadarnhau'r argymhellion gyda'r Cynghorydd Ronwen Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Annwen Daniels yn eilio.

**11020/05/21** **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio.

CEISIADAU I'W YSTYRIED:

1. Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No: NP5/59/792A
**Tir ger 3 Saron Houses, Ffestiniog. LL41 4LY**
Estyniad i'r cwrtil preswyl/Extension to residential curtilage
PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad i'r cais.

Dychwelodd y Cadeirydd Erwyn Jones i'r gadair.

Penderfyniwyd i ohirio'r penderfyniad ar gyfer y ddau gais arall, a'u trafod yn llawn ym Mhwyllgor Rheoleiddio nos Iau nesaf, 20fed o Fai, 2021.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD
AWDURDOD CYNLLUNIO

COPI DRAFFT

| Rhif y Cais | Math o Gais | Manylion y Lleoliad | Bwriad | Ward | Cymuned | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C20/0964/03/DT | Cais Deiliaid Tŷ | 13 Heol Cromwell, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3HG | To fflat newydd i greu balconi a gosod ffenestr / drws gromen yn y cefn<br>New flat roof to create balcony and installation of dormer window / door to the rear | Bowydd & Rhiw | Ffestiniog | Gwrthodwyd |
| C21/0150/03/LL | Cais Llawn | 12a Heol Yr Eglwys, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3HB | Newid defnydd o siop wag i dŷ annedd ynghyd ac addasiadau i'r edrychiadau allanol.<br>Change of use from vacant shop to dwelling together with alterations to external elevations. | Bowydd & Rhiw | Ffestiniog | Caniatawyd gyda Amodau |
| C20/0757/03/AC | Addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio | Nant Y Mynydd Cae Clyd, Cae Clyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AU | Cais i ddiwygio amodau 2 a 13 o ganiatâd cynllunio C14/0248/03/LL yn ymwneud a gosodiad y safle a dyluniad tai/ Application to vary consitions 2 and 13 of planning permission C14/0248/03/LL relating to site layout and house design. | Teigl | Ffestiniog | Caniatawyd gyda Amodau |
| C19/1027/03/LL | Cais Llawn | Tir Ger/ Land By Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog, LL413UF | Adeiladu dau dy deulawr / Construction of 2 two storey dwellings | Diffwys & Maenofferen | Ffestiniog | Caniatawyd gydag Amodau a Cytundeb S106 |
| C19/0240/03/LL | Cais Llawn | Land By Ffordd Manod, Blaenau Ffestiniog, LL41 4AF | Cais i adeiladu 6 ty, llefydd parcio, llefydd troi a ffordd mynediad / Application to construct 6 dwellings parking, turnaround, and access road | Teigl | Ffestiniog | Tynnwyd yn ôl |

**PENDERFYNIAD: I dderbyn yr wybodaeth**

**11021/05/21 9. <u>RHYBUDD O GYNIGIAD</u>**

Gan y Cynghorydd Ronwen Roberts:

"Hoffwn gynnig bod Cyngor Tref Ffestiniog yn ailystyried y polisi o dorri'r gwair yn y caeau chwarae o fewn ffin Cyngor Tref Ffestiniog. Hyn er mwyn cynnig yr cyfle orau i amddiffyn planhigion bywyd gwyllt a phryfed, cynigiaf y dylid torri a chlirio caeau chwarae i amseroedd o'r fath a fyddai'n sicrhau hyn.
Byddai ardaloedd chwarae fel caeau pêl-droed ac ati wedi'u heithrio. I'w drafod yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf."

PENDERFYNIAD: Er yn cytuno gyda'r egwyddor, penderfyniwyd i'w drafod mewn manylder yn y Pwyllgor Mwynderau ar yr 20fed o Fai, 2021.

**11. DATBLYGIADAU YN YR ARDAL**

**11022/05/21 <u>11. IECHYD</u>**

COPI

Dim i'w drafod.

## 12. Y CYNGOR TREF

**11023/05/21 12. ADRODDIAD STAFF Y CYNGOR TREF.**

Cyflwynwyd tabl tasgau byw i'r Cynghorwyr gan y Clerc. Nodwyd fod y Clerc yn rhoi blaenoriaeth i dasgau brys yn sgil y Dirprwy Glerc ar gyfnod salwch, gyda'r dasg mwyaf yn paratoi'r cyfrifon ar gyfer archwiliad mewnol.

Rhoddwyd grynodeb o'r tri ymgeiswyr a gyflwynwyd eu ffurflenni cais a threfnu cyfweliadau i'r tri ymgeiswyr dros zoom, gyda'r Clerc yn cymryd nodiadau, a'r Cynghorydd Erwyn Jones a Gwenlli Evans yn holi'r cwestiynau. Bydd cyfle i'r cynghorwyr bleidleisio ar y tri darpar gynghorwyr yn y Cyfarfod Anarferol a gynhelir ar nos Iau yr 20fed o Fai, 2021.

Nododd y Clerc fod nifer o gwynion am sbwriel yn y parciau chwarae yn parhau, ac er bod gwasanaeth glanhau wedi ei drefnu unwaith yr wythnos, ymddangosir nad yw'n ddigon i ddal i fyny gyda'r sbwriel ar hyn o bryd.

Galwad agored i adfywio Partneriaeth y Parc, ac wedi derbyn diddordeb gan 4 unigolyn, felly'r cam nesaf fydd trefnu cyfarfod gyda nhw. Soniwyd bod cyfleusterau codi sbwriel yn perthyn i Partneriaeth y Parc, a cytuniwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Dref Werdd i dderbyn y cyfleusterau yn ol yn dilyn symud y storfa o'r parc.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

**11024/05/21 13. Trafod ymholiad Antur Stiniog o ail-leoli hysbysfwrdd y Cyngor Tref, yn sgil ystyriaethau o waredu'r rheiliau o flaen 5 Stryd Fawr.**

Yn dilyn yr ymholiad cychwynnol, derbyniodd y Clerc e-bost heddiw gan Antur Stiniog yn cadarnhau na fydde nhw'n symud yr hysbysfwrdd, ac felly nid oedd penderfyniad angen ei wneud gan y Cyngor Tref.

PENDERFYNIAD: Dim penderfyniad yn angenrheidiol bellach.

**11025/05/21 14. Trafod a phenderfynu ar symud system bancio presennol y Cyngor i system ar-lein.**

Yn sgil rhwystrau a gwynebwyd dros y cyfnod clo o beidio a chael cyfrif bancio ar-lein, eglurodd y Clerc yr buddiannau o symud i gyfrif ar-lein, gan gynnwys sicrhau taliadau cyflymach i'n cyflenwyr, sicrwydd gwell gyda'r cyfrifon wrth orfod aros i sieciau glirio'r cyfrif banc. Bysa'r gallu i wirio'r cyfrif yn gyson, a chaniatau system taliadau lle byddai'r Clerc yn mewnbynnu'r taliadau ar y system, ac yna byddai angen 2 Gynghorydd sydd ar y Mandad i ganiatau eu rhyddhau, sydd yn glynu i Reoliadau Ariannol y Cyngor Tref.
Pwysleisiodd y Clerc ei rhwsytredigaeth gyda banc presennol y Cyngor Tref, Natwest, wrth orfod gwario oriau ar y ffon i geisio newid y mandad a newid cyfeiriad swyddfa'r Cyngor.
Argymhelliad y Clerc oedd unai cysylltu efo Natwest i egluro bod y Cyngor Tref yn bygwth gadael, a gweld pa fath o wasanaeth a chyfrif a ginigir. Neu'r ail opsiwn byddai symud i banc Unity, sydd wedi ei deilwra yn fwy at Cynghorau Tref.

Cododd y Cynghorydd Annwen Daniels yr achos dros symud i fancio ar-lein, a chodi ei phryder am yr amser mae'r Clerc yn gorfod ei wario ar y ffon i ddatrys problemau. Nododd y Cynghorydd Bedwyr Gwilym ei gyngor o ystyried diogelwch yr arian os bwriedir symud banciau, a'r risg o golli'r arian petae'r banc hwnnw yn mynd i'r wal. PENDERFYNIAD: I'r Clerc gysylltu gyda Natwest i weld pa gynigion a geir cyn cytuno i symud y cyfrif i Unity.

**11026/05/21 15. Trafod ac ystyried comisiynu cyfieithydd i gynorthwyo cyfieithu cofnodion y Cyngor Tref, er mwyn gallu uwchlwytho ar wefan y Cyngor cyn gynted a phosib.**

Un o anghenion yr Archwiliadau yw sicrhau fod y cofnodion i gyd ar y wefan. Nodwyd fod 10 set o gofnodion angen eu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, er mwyn eu uwchlwytho i'r wefan. Yn sgil yr amserlen waith, a'r angen i sicrhau fod y cofnodion i gyd i fyny ar y wefan cyn gynted ag sy'n bosib, bod hi'n amserol i dderbyn cymorth cyfieithydd proffesiynol at y cyfnod hwn yn unig.
Holodd y Cynghorydd Mark Thomas os bysa modd holi am ail bris, yn dilyn derbyn cynnig pris arbennig o £1,000 ar gyfer 10 set o gofnodion a'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai. Cytuniwyd yn sgil yr amser prin, a'r cynnig arbennig sydd eisoes wedi ei dderbyn, y byddai chwilota am bris arall yn arafu'r weithred.

PENDERFYNIAD: Cynigiodd y Cynghorydd Glyn Daniels i dderbyn pris Glyn Lasarus Jones o £1,000. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Rory Francis. Y Cyngor Tref yn cytuno i gyfieithu'r cofnodion gan ddefnyddio gwasanaeth Glyn Lasarus Jones.

**11027/05/21 16. Trafod adnewyddu cytundeb trydan y Pafiliwn.**

Cytundeb presennol ar gyfer trydan yn y pafiliwn wedi dod i ben. Y trefniant presennol yw bod y Cyngor Tref yn talu'r biliau, ac yn hawlio'r arian yn ol gan tenant y pafiliwn. Argymhelliad y Clerc oedd mynd am gytundeb dwy flynedd gyda British Gas, gan nad oedd cyflenwyr eraill yn gallu cynnig arbedion gwahanol i'r cytundeb yma.
PENDERFYNIAD: Cynigiodd y Cynghorydd Glyn Daniels i fynd am y gytundeb 2 flynedd gyda British Gas. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Annwen Daniels a phawb yn gytun.

**MATERION YN CODI**

11028/05/21 **<u>17 Caeau Chwarae</u>**

Y biniau yn y Parc Sglefrio wedi eu llucho o amgylch eto. Y biniau angen eu gosod yn sownd i'r llawr.
Y tseiniau sydd yn sownd i'r olwyn yn y Parc wedi dod yn rhydd.
Boltan wedi dod allan o'r cyfarpar rhaffau yn y Parc.
Angen trafod cyfarfod ar safle yn y Parc er mwyn rhestru'r holl sydd angen eu gwneud yno. I'w drafod ym Mhwyllgor Mwynderau ar yr 20fed o Fai, 2021.
Cynghorydd Bedwyr Gwilym yn nodi fod y rheolau wedi newid yn ddiweddar lle nad oes modd i bobl ysmygu mewn caeau chwarae. Cytuniwyd i ofyn wrth yr archwilydd parciau i nodi os oes arwyddion dim ysmygu ym mhob cae, ac yn a sicrhau bod

COPI DRAFT

arwyddion newydd yn cael eu gosod mewn unrhyw cae sydd heb arwydd 'Dim Ysmygu'.
Holodd y Cynghorydd Mark Thomas os oedd y Cyngor wedi cytuno i newid amser cau'r Parc i 8 o'r gloch y nos. Nodwyd fod y penderfyniad hwnnw wedi ei gytuno ac yng nghofnodion y Pwyllgor Mwynderau. Cadarnhawyd nad oedd yr newid amser yn effeithio tenantiaid y Parc.
Canmolwyd Helen Jones ar ei gwaith clirio ar gae Baltic gan y Cynghorydd Annwen Daniels. Nodwyd ei bod wedi dod ar draws to asbestos yno, ac felly bu i'r gwaith clirio ddod i ben tan bydd hwnnw wedi ei waredu.

11029/05/21 **<u>18 Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol.</u>**

Adroddodd y Cynghorydd Annwen Daniels am gyfarfod rhyngddi ac aelod cabinet dros yr economi Gareth Thomas, a swyddogion o Rheilffordd Ffestiniog i drafod pryderon am diffyg y tren fach yn cyrraedd Blaenau Ffestiniog ar hyn o bryd.

Nododd y Cynghorydd Annwen Daniels ei siom yn y rhesymeg a rhoddwyd am beidio a theithio i platfform Blaenau Ffestiniog ar hyn o bryd, ac bu iddynt ddatgan y bwriad o cychwyn teithiau yn ol i Flaenau Ffestiniog yn mis Gorffennaf.

Cadarnhaodd bod Zip World wedi cymryd tenantiaeth hir-dymor o Llechwedd. Rhagor o wybodaeth i ddod o fewn yr misoedd nesaf.

11030/05/21 **<u>18. NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD</u>**

Dim i'w adrodd.

**<u>11031/05/21</u>** **<u>19. NEWYDDION ARALL</u>**

Nododd y Clerc y bu iddi fynychu cyfarfod LleCHI ar ran y Cynghorydd Annwen Daniels, a cadarnhawyd fod 5000 o gopiau o'r llyfryn 'Geiriau ar y stryd' wrthi'n cael ei ddatblygu, gyda newid i ddim ond dau dudalen i'r llyfryn gwreiddiol. Cytunodd y Cyngor Tref i fod yn gyfrifol am dderbyn y llyfrynnau a'u dosbarthu pan yn barod.

Nododd y Cynghorydd Annwen Daniels iddi fynychu cyfarfod gyda Trafnidiaeth Cymru, sydd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon ariannu cerflun ar blatfform y rheilffordd sydd yn cael eu llenwi gyda topiau boteli llefrith. Y bwriad fydd cael un Y Ddraig Goch yno. Ac eu bod hefyd am roi arian i'r Dref Werdd er mwyn peintio murlun yn y lloches bws wrth y gorsaf rheilffordd.

Gofynnodd y Cynghorydd Bedwyr Gwilym os bysa modd i Gynghorydd Annwen Daniels dderbyn diweddariad am y cynlluniau am orsaf rheilffordd newydd, yn y cyfarfod partneriaeth nesaf. Cytuniwyd y byddai'n fuddiol gwahodd Melanie Lawton o Trafnidiaeth Cymru i un o gyfarfodydd nesaf y Cyngor Tref i holi ymhellach.

COPI DRAFFT

**11032/05/21 20. GOHEBIAETH**

'The Clerk' rhifyn 52

'Cyfnodolyn Rheilffordd Ffestiniog – Gwanwyn 2021

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25yh

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS IAU 10fed o FEHEFIN 2021**
**AR LEIN am 7.00 y.h.**

**CEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 10fed o FEHEFIN 2021**
**AR Y 3ydd o FEHEFIN 2021**

COPI DRAFFT